

## CRYNODEB O BROSIECTAU

Sefydliad	Crynodeb o'r prosiect	Cyfanswm cost y prosiect £	Cais am Grant Gwella Sir Benfro £
Llanrath Clyb Bowlio	Bydd y ceisydd yn prynu uned electronig ar gyfer trin matiau. Bydd hyn yn cynyddu gallu'r Clwb i ymgysylltu â chyfranogwyr hŷn a llai abl, amser cyfranogi a chyfleoedd hyfforddi ar gyfer pob oed i wrthweithio effaith andwyol perchenogaeth ail gartref ar y gymuned arunig hon ar yr arfordir. Bydd yr offer hwn yn hwyluso mwy o grwpiau sy'n cael eu cyfyngu ar hyn o bryd gan symudedd a nerth i ddefnyddio'r clwb oherwydd bod y broses bresennol yn gofyn dau o bobl abl i osod y matiau.	5,646.00	4,000.00
Llanrath Cynor Cymuned	Bydd y prosiect hwn yn coffáu ac yn deyrnged parhaol i ymarfer Jantzen ar gyfer glaniadau D-Day yn Normandi. Bydd yn dathlu rôl bwysig a chyfraniad Cymuned Amroth at lwyddiant glaniadau D-Day. Bydd panel dehongli yn cynnwys testun a lluniau o ymarfer "Jantzen". Caiff codau QR eu gosod ar y llwybr hefyd yn cyfeirio at fannau eraill o ddiddordeb hanesyddol ac sy'n ymwneud â'r Ail Ryfel Byd o amgylch y pentref.	3,045.60	2,436.48
Llanrath Cynor Cymuned	Mae'r prosiect hwn mewn grym i gadw enwau hanesyddol ar ffyrdd ym mhentref Llanteg er mwyn cynnal ymdeimlad o berthyn i genedlaethau'r dyfodol. Nid oes arwyddion ar sawl ffordd yn y pentref ac wrth gollu trigolion hŷn, bydd enwau hanesyddol yn y gymuned yn cael eu colli hefyd. Tarddodd y prosiect wrth i Ysgol Tafarnspite gynorthwyo'r gwaith addysgu am hanes lleol gyda Chyngor Cymuned Llanrath.	1,036.79	691.42

## Atodiad 1

Sefydliad	Crynodeb o'r prosiect	Cyfanswm cost y prosiect £	Cais am Grant Gwella Sir Benfro £
<b>Llanrath Cynor Cymuned</b>	Ailddatblygu maes chwarae Summerhill trwy roi offer newydd yn lle'r offer sydd ag ôl traul arnynt o ganlyniad i orddefnydd neu hindreuliad. Gwella profiadau chwarae plant bach a phlant iau gydag offer ychwanegol, cyfredol, gafaelgar a rhyngweithiol y mae ein pobl ifanc yn eu disgwyl heddiw. Ffensio safonol ar hyd terfyn y maes chwarae ar gyfer diogelwch a gosod offer newydd ac arwyddion cyfeiriadol.	40,018.00	30,018.00
<b>Llanrath Cynor Cymuned</b>	I dreialu gwasanaeth Wi-Fi am ddim ar hyd darn sydd o ddeutu 200 medr ar hyd pen gorllewinol glan y môr Llanrath lle leolir y rhan fwyaf o fariau, siopau a bwytai. O ganlyniad i ddaearyddiaeth ac yn ddibynnol ar ddarparwr y rhwydwaith ffôn symudol, mae signal ffôn symudol yn wael iawn neu ddim yn bodoli ar hyn o bryd.	5,005.00	3,880.00
<b>Llanrath Neuadd Bentref Llanteg</b>	Bydd y prosiect hwn y gwella profiadau defnyddwyr yn weledol ac yn glywedol wrth iddynt ymweld â Neuadd Llanteg, drwy osod system sain yno. Bydd yn cynnwys system dolen sain anwythol, taflunydd a sgrin trydan, goleuadau llwyfan, chwaraewr DVD / CD a monitor teledu cludadwy. Bydd hefyd yn talu am drwydded deledu a wi-fi am y flwyddyn gyntaf.	10,598.00	8,478.40
<b>Angle Cynor Cymuned - Parc Cymunedol</b>	Cam un o dri cham yw'r prosiect hwn i ddatblygu ardal benodol o dir sydd wedi'i lleoli yng nghyffiniau'r cae chwarae presennol ac sy'n ymestyn tuag at hen adeilad Ysgol Angle. Y gobaith yw gweddnewid yr ardal trwy greu man chwarae diogel a chynhwysol, lle picnic a gardd i hyrwyddo llesiant y gymuned gyfan.	30,132.00	11,678.87

## Atodiad 1

Sefydliad	Crynodeb o'r prosiect	Cyfanswm cost y prosiect £	Cais am Grant Gwella Sir Benfro £
<b>Caeriw Cyngor Cymuned</b>	Bydd y prosiect yn trawsnewid ardal y tu allan i Neuadd Gymuned Caeriw yn ardal weithredol amldeffnydd yn yr awyr agored drwy roi arwyneb newydd yn y maes parcio, gwella'r ardal gyda byrddau y gellir eu symud, meinciau, gardd berlysiâu, planhigion synhwyrdd, ardal farbeciw, goleuadau solar a thirlunio. Creu ardal ychwanegol, ganolog yn yr awyr agored i ddod â phawb at ei gilydd yn y gymuned.	17,444.99	11,804.00
<b>Clydau Cyngor Cymuned - Helpu Neuaddau - (Y Gymdeithasau Cwm Arian)</b>	Bydd y prosiect Helpu Neuaddau yn cefnogi gwirfoddolwyr sy'n rheoli neuaddau cymunedol mewn pedwar pentref ar ffurf cymorth penodol gan Swyddog Cefnogi Prosiectau. Bydd y swyddog hwn yn cydweithio â gwirfoddolwyr i ddod o hyd i ffyrdd o sicrhau bod y neuaddau'n ymdopi'n well â newidiadau yn eu cymunedau ac yn fwy cynaliadwy'n economaidd.	15,764.00	12,611.00
<b>Clydau Cyngor Cymuned - Helpu Neuaddau - (Y Gymdeithasau Cwm Arian)</b>	Nod y prosiect hwn, a lywiwyd gan y cynllun peilot 2020 i helpu neuaddau cymunedol, yw ychwanegu gwerth at y prosiect peilot trwy hyrwyddo adferiad yn dilyn COVID-19, cryfhau cysylltiadau cymunedol, cefnogi neuaddau i ddarganfod cyllid ar gyfer prosiectau uchelgeisiol, rhannu'r arferion gorau a chysylltu digwyddiadau, darparu e-gylchlythyrau i rannu llwyddiannau a mentora gwirfoddolwyr i feithrin hyder.	34,962.79	27,722.00
<b>Crymoch Clwb Pêl-droed</b>	Prosiect i ddarparu ystafelloedd newid cymunedol a ddiweddarwyd i sicrhau dyfodol llewyrchus i Glwb Pêl-droed Crymoch a'r cymunedau cyfagos. Nid yw'r cyfleusterau presennol yn addas a bydd hyn yn cefnogi'r clwb i ddod yn ganolbwynt cymdeithasol mwy gweithredol i gefnogi llesiant y bobl leol.	8,100.60	6,078.80
<b>Crymoch Clwb Criced</b>	Mae Clwb Criced Crymoch yn ailsefydlu ei ganolfan ar Gaeau Chwarae Preseli yng Nghrymoch. Nod y prosiect hwn yw darparu cyfleuster storio hygyrch ar y safle i gadw offer a pheiriannau'r clwb, sy'n hanfodol er mwyn ailddatblygu'r cae a rheoli'r ardal.	5,700.00	4,560.00

## Atodiad 1

Sefydliad	Crynodeb o'r prosiect	Cyfanswm cost y prosiect £	Cais am Grant Gwella Sir Benfro £
<b>Cwm Gwaun CRhA Ysgol Llanychllwydog</b>	<p>Bydd y prosiect yn gweld disgyblion o Ysgol Llanychllwydog yn cydweithredu â Dysgwyr Cymraeg o'r ardal yn yr ysgol ar gyfer gwersi Cymraeg ffurfiol ac anffurfiol, i gynnwys dysgwyr Cymraeg yng ngweithgaredd yr ysgol i wella gardd yr ysgol gyda chymorth y dysgwyr. Nod y prosiect yw cyflwyno'r Gymraeg i ddisgwyr yn y cylch a meithrin cysylltiadau cryfach rhwng yr ysgol ac aelodau'r gymuned. Byddai gwella gardd yr ysgol yn gwella'r amgylchedd i ddisgyblion ac i'r gymuned gyfan oherwydd bod yr ardd oddi allan i adwyau'r ysgol ac yn cael ei gweld gan bawb yn y gymuned. Nod y prosiect yw cynorthwyo creu cymuned gydlynol trwy weithio ar amcanion cyffredin a gwella'r amgylchedd yn y cylch.</p>	2,000.00	1,550.00
<b>Dale Papur Penrhyn</b>	<p>Bydd y ceisydd yn disodli'r argraffydd presennol i sicrhau parhau a gwella datblygu a dosbarthu'r papur newydd cymunedol. Mae Papurau'r Penrhyn yn cynnwys 32 o wirfoddolwyr sy'n golygu, argraffu a dosbarthu 765 cylchgronau cymunedol yn ddi-dâl o fewn pentrefi Dale, Sain Ffraid, Marloes, Llanisan-yn-Rhos, Castell Gwalchmai a Robeston West.</p>	4,250.00	3,329.00
<b>Dale Winter Warmers</b>	<p>Mae'r ceisydd wedi nodi prosiect cymunedol a fydd yn sefydlu "aduniadau" / "mannau galw heibio" rheolaidd, wythnosol, anffurfiol ar gyfer trigolion parhaol Dale yn ystod y gaeaf. Bydd gweithgareddau'n cael eu trefnu'n unol â dymuniadau'r rhai sy'n mynychu, trwy ganolbwyntio ar fwynhad, iechyd a ffyniant. Mae'n awgrymu y bydd yn hyrwyddo cymunedau iach, yn gwella gofal cymdeithasol ac yn gwella cynaliadwyedd Dale yn y pen draw.</p>	3,452.00	2,750.00
<b>Croes Dinas Pwyllgor Cae Chwarae Coffa</b>	<p>Bydd y ceisydd yn gwneud gwaith i wella draenio Cae Chwarae Coffa Dinas i alluogi ei ddefnyddio drwy gydol y flwyddyn, gan ddarparu man chwarae a hamdden hygyrch ar gyfer yr holl gymuned.</p>	21,060.00	15,139.00

## Atodiad 1

Sefydliad	Crynodeb o'r prosiect	Cyfanswm cost y prosiect £	Cais am Grant Gwella Sir Benfro £
<b>East Williamston Cymdeithas Cymuned a Neuadd</b>	<p>Nod y prosiect yw annog perchenogion ail gartrefi i ymgysylltu â'r gymuned trwy ddefnyddio'r Neuadd Gymunedol a'r Parc Cymunedol i gael effaith gadarnhaol ar yr economi lleol. Bydd y prosiect hwn yn cyflenwi chwech o fyrddau hysbysebion mewn manau strategol yn y gymuned (ar bwys safleoedd bysiau (3), ar fan chwarae, yn y parc cymunedol ac ar y neuadd gymunedol) i ehangu cyrraedd yr hysbysrwydd lleol sydd ar gael. Fel hwb dechreuol bydd yn argraffu a dosbarthu taflen ddwyieithog ynghylch yr amwynderau lleol, gan gynnwys rhifau cyswllt lleol a gweithgareddau yn y Neuadd a'r Parc i holl dai yn y cylch.</p>	8,085.00	6,468.00
<b>Eglwyswrw Canolfan Gymunedol Ieuencid Crosswell</b>	<p>Mae'r ymgeisydd yn cynnig adfywio'r Ganolfan Gymunedol yn raddol dros bedwar cam allweddol. Mae'r prosiect yn cynrychioli'r cam cyntaf er mwyn sicrhau bod y neuadd yn hygyrch i bawb sy'n ei defnyddio, bod y cyfleusterau sylfaenol o'r ansawdd gorau posibl a bod y toiledau'n hygyrch.</p>	24,750.00	4,800.00
<b>Eglwyswrw Cymdeithas Pentref</b>	<p>Neuadd y pentref yw'r unig le addas y gall y gymuned gyfarfod ynddo. Mae'r gymdeithas am sicrhau bod y cyfleuster yn ennyn mwy o ddiddordeb ac yn fwy hyblyg er mwyn galluogi'r gymuned leol i'w ddefnyddio. Nod y prosiect yw galluogi'r gymdeithas i gynnal nosweithiau ffilm, digwyddiadau galw heibio a gweithgareddau ffitrwydd a llesiant er mwyn sicrhau bod y neuadd yn hunangynhaliol ac yn dod yn fwy o hwb i'r pentref.</p>	4,944.58	3,955.67
<b>Abergwaun ac Wdig Aberjazz</b>	<p>Bydd Aberjazz yn trefnu gŵyl gerdd flynyddol Aberjazz drwy gydol penwythnos Gŵyl Banc Awst, sy'n cyd-daro â Charnifal Abergwaun ac Wdig ar Sadwrn Gŵyl y Banc. Mae'r ceisydd eisiau ychwanegu achlysur newydd 'Gorymdaith Aberjazz' at yr ŵyl, fydd yn digwydd ar Sul Gŵyl y Banc. Ei fwriad yw ymestyn yr awyrgylch carnifal dros 2 ddiwrnod.</p>	2,775.10	2,048.05

## Atodiad 1

Sefydliad	Crynodeb o'r prosiect	Cyfanswm cost y prosiect £	Cais am Grant Gwella Sir Benfro £
<b>Abergwaun ac Wdig Ymddiriedolaeth Ymosodiad Abergwaun Cyf</b>	Dyluniwyd y Prosiect Achyddiaeth i ymgysylltu â phobl leol er mwyn nodi'r teuluoedd a oedd yn byw yn yr ardal yn ystod goresgyniad gan y Ffrancwyr ym 1797. Ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am y boblogaeth a oedd yn byw yn Abergwaun a'r ardal gyfagos yn ystod y cyfnod hwn. Bydd y prosiect yn cysylltu'r teuluoedd hyn â'u disgynyddion sy'n byw yn y cyffiniau.	4,900.00	3,920.00
<b>Abergwaun ac Wdig Grŵp Drama Abergwaun - Cymdeithas Theatr Gerddorol (FMTS)</b>	Pwrpas y prosiect yw prynu hawliau a sriptiau a rhentu lleoliad ymarfer ac offer i adeiladu setiau. Galluogi Cymdeithas Theatr Gerdd Abergwaun i berfformio 'The Sound of Music' a 'Peter Pan: The Musical'.	4,000.00	3,200.00
<b>Abergwaun ac Wdig Cymdeithas Clwb Pêl-droed Fishguard Sports</b>	Yn dilyn llwyddiant cam 1, nod y prosiect hwn yw paratoi a datblygu cae criced o ansawdd da. Bydd hyn yn galluogi Fishguard Sports i ddenu mwy o bobl, teuluoedd ac Ysgol Abergwaun i gymryd rhan mewn chwaraeon a mwynhau eu cyfleuster drwy gydol y flwyddyn. Bydd yn sicrhau bod y Clwb yn fwy cynaliadwy yn y pen draw ac yn helpu i adfywio rhan fawr o gymuned Abergwaun ac Wdig.	16,320.00	13,600.00
<b>Abergwaun ac Wdig Cymdeithas Clwb Pêl-droed Fishguard Sports</b>	Nod y prosiect yw cynnig amgylchedd mwy croesawgar a diogel i ennyn diddordeb mwy o bobl drwy gydol y flwyddyn. Bydd gosod ffens o amgylch y llethr ar waelod y cae pêl-droed yn sicrhau y gellir datblygu tîm criced a chwaraeon tîm eraill drwy gydol y flwyddyn.	19,712.00	5,273.14
<b>Abergwaun ac Wdig Cymdeithas Clwb Pêl-droed Fishguard Sports</b>	Yn dilyn llwyddiant cam 1, nod y prosiect hwn yw paratoi a datblygu cae criced o ansawdd da. Bydd hyn yn galluogi Fishguard Sports i ddenu mwy o bobl, teuluoedd ac Ysgol Abergwaun i gymryd rhan mewn chwaraeon a mwynhau eu cyfleuster drwy gydol y flwyddyn. Bydd yn sicrhau bod y Clwb yn fwy cynaliadwy yn y pen draw ac yn helpu i adfywio rhan fawr o gymuned Abergwaun ac Wdig.	16,320.00	13,600.00

## Atodiad 1

Sefydliad	Crynodeb o'r prosiect	Cyfanswm cost y prosiect £	Cais am Grant Gwella Sir Benfro £
<b>Abergwaun ac Wdig Trawsnewid Bro Gwaun</b>	<p>Bydd y prosiect hwn yn adeiladu ar lwyddiant yr Oergell Gymunedol a'r diddordeb a ddangosir gan bobl leol mewn gweithgareddau gwastraff ac arbed arian eraill, e.e. cyfnewid dillad, trwsio eitemau cartref, sesiynau coginio a chyngor ar ynni. Bydd y prosiect yn cyflogi cydlynnydd rhan amser i sefydlu rhaglen weithgareddau sy'n helpu pobl leol i leihau gwastraff, arbed arian ac ennill sgiliau.</p>	16,766.00	10,786.00
<b>Abergwaun ac Wdig Cwmni Buddiannau Cymunedol Sea Trust</b>	<p>Pwrpas y prosiect hwn yw recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr i gynnal arolygon cardiau adnabod o amgylch arfordir Sir Penfro, gan ychwanegu at gronfeydd data'r Sea Trust. Un o'i nodau yw rhoi cyfle i gyfranogwyr gydweithio er budd eu hiechyd meddwl a chorfforol, eu bywydau cymdeithasol a'u sgiliau cyflogadwyedd. Bydd y prosiect hefyd yn ychwanegu at brofiadau twristiaid, gan helpu i ddenu pobl i ymweld ag Abergwaun ac Wdig.</p>	43,711.05	16,772.55
<b>Abergwaun ac Wdig Ymddiriedolaeth Pobl Ifanc Cyf – (PWYNT)</b>	<p>Nod y prosiect hwn yw datblygu rhaglen gymorth TGCh ar gyfer pob cenedlaeth yn ogystal â hyfforddi pobl ifanc (NEETS, Dug Caeredin a disgyblion Bagloriaeth Cymru), i roi cymorth TGCh i rannau eraill o'r gymuned. Bydd yn cysylltu cenedlaethau gwahanol mewn ffyrdd newydd a chadarnhaol e.e. prosiect hanes byw lleol, prosiectau amlgyfrwng arloesol a hyfforddiant ar ddiogelwch ar-lein.</p>	13,131.00	12,775.00
<b>Hwlfordd Prosiect Ieuencid a Chymuned Garth</b>	<p>Nod y prosiect yw adnewyddu a diweddarau cyfleusterau'r adeilad, gan gynnwys gwella'r system wresogi, un darn o'r to ac ailaddurno. Bydd hyn yn sicrhau y gellir defnyddio pob ystafell yn yr adeilad yn fwy effeithlon a chynnig gweithgareddau mewn amgylchedd sy'n fwy croesawgar.</p>	13,330.00	10,640.00

## Atodiad 1

Sefydliad	Crynodeb o'r prosiect	Cyfanswm cost y prosiect £	Cais am Grant Gwella Sir Benfro £
<b>Hwlffordd Canolfan Gymunedol Tabernacl</b>	<p>Nod y prosiect hwn yw gwella ansawdd gwael y llawr, ardal y llwyfan a'r partiwn sydd wedi'i ddifrodi. Bydd y gwaith yn cynnwys gosod haen waelodol acwstig a laminiad masnachol ar y llawr, trin ochr isaf y llwyfan sydd wedi pydru ac sydd â phryfed pren, gosod plastrfwrdd newydd a newid ffrâm y ffenestr sydd wedi pydru a'i orchuddio.</p>	4,531.00	3,625.00
<b>Hwlffordd VC Gallery Oriol VC</b>	<p>Nod y prosiect hwn yw recriwtio Gwirfoddolwr a Rheolwr Marchnata Digidol i wella presenoldeb digidol yr oriel a'i heffaith yn y gymuned. Bydd y rôl yn cynnwys nodi defnyddwyr gwasanaeth sy'n anodd eu cyrraedd ac sydd wedi'u hynysu, cyfathrebu'n fwy effeithlon, gwella cyrhaeddiad yr oriel ac ymestyn ei rhwydwaith cymorth. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y gymuned yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau a chyfleoedd.</p>	24,000.00	19,200.00
<b>Cas-lai Prosiect Cymunedol</b>	<p>Bydd y prosiect yn creu llyfryn cymunedol ac yn diweddarau gwefan y gymuned. Caiff pabell fawr ac arddangosfyrddau eu prynu i'w defnyddio yn y ganolfan gymunedol ac mewn sioeau a digwyddiadau lleol. Bydd hyn yn gwella'r dulliau cyfathrebu â thrigolion, perchennogion ail gartrefi ac ymwelwyr i gynnal mwy o ddigwyddiadau lleol ac adfywio'r gymuned.</p>	7,730.72	6,563.22
<b>Jeffreyston Cyngor Cymuned</b>	<p>Mae ardal werdd fawr yn Jeffreyston nad yw'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd, a bydd y prosiect hwn yn rhoi hwb cymdeithasol canolog i'r pentref unwaith eto heb godi eu praesept. Nod y broses o wella'r parc yw meithrin cydberthnasau a datblygu grŵp gwirfoddol i greu ardal sy'n ecogyfeillger.</p>	3,091.00	2,372.00
<b>Llandyfái Cyngor Cymuned</b>	<p>Mae'r prosiect hwn yn rhan o welliant mwy o fannau chwarae sy'n cael ei gyflawni yn y gymuned, oherwydd bod y cyfleusterau chwarae presennol yn eithaf cyfyngedig. Yr agwedd hon ar y prosiect yw ailgodi ffensys a chyflenwi a gosod offer ymarfer a chwarae ychwanegol. Bydd y cymorth ariannol sydd ar gael yn mynd ran o'r ffordd yn unig tuag at yr offer; fel mai Cyfnod 1 yw hwn.</p>	25,204.19	15,990.00



## Atodiad 1

Sefydliad	Crynodeb o'r prosiect	Cyfanswm cost y prosiect £	Cais am Grant Gwella Sir Benfro £
<b>Llandyfái</b> <b>Cyngor Cymuned 2</b>	Bydd y prosiect hwn yn sicrhau y gall digwyddiadau cymdeithasol gael eu cynnal yn y gymuned bob chwarter drwy gydol y flwyddyn ledled Llandyfái, a fydd o ddiddordeb i bob aelod o'r gymuned: teuluoedd, yr henoed, plant, oedolion, trigolion a pherchenogion ail gartrefi. Gallai'r digwyddiadau gynnwys te prynhawn, picniciau a barbeciwiau yn ystod yr haf, dathliadau VE a pharti gaeaf.	3,750.00	3,000.00
<b>Llangwm</b> <b>Enfys Tirion</b>	Bydd y prosiect hwn yn ailddatblygu ac yn gwella'r ardal chwarae yn Llangwm ac yn creu ardal gynhwysol a naturiol i blant o bob oedran a gallu ei mwynhau. Bydd yr ardal yn annog ymdeimlad o agosatrwydd, yn hyrwyddo bioamrywiaeth ac yn cynnwys elfennau sydd wedi'u dylunio er budd pob cenedlaeth. Bydd hyn yn annog ac yn galluogi plant ac oedolion i gysylltu â'i gilydd ac â byd natur mewn ardal ddiogel sy'n hyrwyddo gwydnwch a llesiant emosiynol a meddyliol.	9,038.00	7,230.40
<b>Llanrhian</b> <b>Cyngor Cymuned</b>	Bydd y prosiect 'Connected Community' yn creu hwb cymunedol drwy addasu neuadd yr ysgol gynradd yng nghanol ardal y cyngor cymuned. Caiff Swyddog Cyswllt Cymunedol dwyieithog ei benodi a chaiff dyfodol y cylchlythyr lleol ei ddiogelu gan ddatblygu ei bresenoldeb digidol.	15,423.78	11,536.28
<b>Cyngor Cymuned Llanrhian</b>	Mae'r ymgeisydd yn ceisio cyllid i greu hwb cymunedol yng nghanol ardal y Cyngor Cymuned, gan ddefnyddio Neuadd yr Ysgol Gymunedol yng Nghroesgoch. Bydd yr Hwb ar gael i grwpiau o'r gymuned leol ac unrhyw weithgareddau sy'n dod â'r gymuned at ei gilydd.	7,632.18	5,869.68

## Atodiad 1

Sefydliad	Crynodeb o'r prosiect	Cyfanswm cost y prosiect £	Cais am Grant Gwella Sir Benfro £
<b>Maenorbŷr</b> <b>Save our Skrinkle Play Area</b>	Bydd y prosiect yn ychwanegu gwerth at gymuned Skrinkle trwy ddarparu offer chwarae hanfodol i gynnal ffyniant teuluoedd a phlant ym Maenorbŷr. Trwy wella'r canolbwynt cymunedol cydnabyddedig hwn mae'r boblogaeth frodorol yn dechrau rhoi sylw i ddiffyg cyfleusterau a gwasanaethau lleol sy'n deillio'n uniongyrchol o berchenogaeth ail gartref. Bydd yn helpu'r gymuned leol greu cymuned hunangynhaliol, gydlynol, gydnerth a bywiog. Mae'r prosiect yn gofyn am gymorth i brynu a gosod darn allweddol o offer chwarae, sef Nursery Rhythme Multiplay System, ar gyfer y parc plantos.	13,352.00	9,741.00
<b>Manordeifi</b> <b>Cwmni Buddiannau Cymunedol Clynyfw – Tŷ Twt Clynyfw</b>	Bydd Prosiect Tŷ Twt yn darparu cyfleuster cynhwysol newydd yn y Fferm Ofal gan gynnwys cyfleuster 'changing places' ac ardal sychu. Bydd yr ardal sychu yn sicrhau y gall cyfranogwyr, staff, gwirfoddolwyr, ymwelwyr a thrigolion a gefnogir fwynhau a chael mynediad i weithgareddau awyr agored, a sychu offer tywydd gwlyb yn syth.	20,300.70	5,000.00
<b>Manordeifi</b> <b>Cae Chwarae Capel Newydd</b>	Nod y prosiect hwn yw gosod offer newydd yn y cae chwarae yn lle'r offer sydd yno ar hyn o bryd sydd wedi'i ddifrodi ac yn anniogel.	11,000.00	8,000.00
<b>Marloes a Sain Ffraid</b> <b>Ardal Hamdden Marloes a Phwyllgor Neuadd Bentref Marloes</b>	Er mwyn gwella cydlynu cymunedol a rhannu gwybodaeth ledled y gymuned bydd y ceisydd yn disodli dau fwrdd hysbysebion presennol y pentref, i sicrhau dal i hysbysu'r gymuned.	1,083.20	866.56
<b>Marloes a Sain Ffraid</b> <b>Neuadd Bentref Marloes</b>	Nod y prosiect hwn yw darparu system ffotofoltäig solar i wresogi neuadd y pentref drwy ddefnyddio system o wresogyddion storio ac allforio trydan na chaiff ei ddefnyddio i'r grid cenedlaethol. Bydd hyn yn sicrhau bod y neuadd yn fwy croesawgar a chyfforddus ac yn helpu i ddiogelu adeiladwaith yr adeilad, gan leihau effaith lleithder ar ei strwythur a'i osodiadau.	14,855.70	11,880.00

## Atodiad 1

Sefydliad	Crynodeb o'r prosiect	Cyfanswm cost y prosiect £	Cais am Grant Gwella Sir Benfro £
<b>Mathri Cyngor Cymuned</b>	Bydd y prosiect hwn yn gwella sawl cyfleuster cymunedol a chymdeithasol yn ardal Mathri er mwyn helpu i gynnal hyfywedd cymunedol i'r trigolion parhaol a'r ymwelwyr.	8,411.30	6,729.04
<b>Mathri Cyngor Cymuned</b>	Bydd y prosiect hwn yn gwella sawl cyfleuster cymunedol a chymdeithasol yn ardal Mathri er mwyn helpu i gynnal hyfywedd cymunedol i'r trigolion parhaol a'r ymwelwyr.	6,785.00	5,428.00
<b>Aberdaugleddau Cymdeithas Gymunedol</b>	Bydd y prosiect yn defnyddio gwasanaethau Oxford Psychometrics Ltd. i gynnal rhaglen cymorth a datblygu staff yn Ysgol Aberdaugleddau. Mae morâl isel yn yr ysgol a diffyg cydlyniant wedi cael effaith andwyol sylweddol ar y gymuned gyfan. Bydd y cynllun peilot hwn dros ddwy flynedd yn mynd i'r afael â hynny ac yn sicrhau gwelliant i'r ysgol a'r gymuned.	67,065.00	23,532.50
<b>Aberdaugleddau Canolfan Gymunedol Hubberston a Hakin</b>	Nod y prosiect hwn yw sicrhau bod Neuadd Hubberston a Hakin yn cyrraedd y safonau amgylcheddol cyfoes ac yn defnyddio arfer dda o ran effeithlonrwydd ynni. Drwy osod paneli solar ffotofoltäig a gosod boeler newydd â gosodiadau parthu a rheoli tymheredd, bydd yn lleihau costau ynni'r ganolfan.	31,275.64	25,000.00

## Atodiad 1

Sefydliad	Crynodeb o'r prosiect	Cyfanswm cost y prosiect £	Cais am Grant Gwella Sir Benfro £
<b>Arberth Prosiect Ieuenctid Safle Bws</b>	<p>Nod y prosiect hwn yw gwella adeilad y Safle Bws yn ogystal â'r ardal o'i amgylch, a fydd yn gwella gwaelod ardal Towns Moor a'r maes parcio. Bydd yn cynnwys gosod ffens weiren bigog newydd, gosod llwybr mynediad, tirlunio'r tir a phlannu coed ar y cyd â Friends of Narberth Trees. Bydd yr adeilad wedi'i orchuddio â'r un deunydd a ddefnyddiwyd ar gyfer y pen deheuol, caiff drysau allanol newydd eu gosod er mwyn atal dŵr rhag mynd i mewn ac atal gwres rhag cael ei golli a chaiff esgynfa newydd ei gosod er mwyn sicrhau y gall bawb gyrraedd yr adeilad. Unwaith y bydd yr adeilad yn addas i'w ddefnyddio, caiff defnyddwyr newydd eu croesawu a chaiff sesiynau galw heibio i bobl ifanc eu hailgyflwyno gyda gweithiwr ieuenctid â thâl er mwyn helpu i ysbrydoli ac ymgysylltu â phobl ifanc yr ardal.</p>	18,157.77	11,707.77
<b>Arberth Pwyllgor Pentref Ludchurch</b>	<p>Nod y prosiect hwn yw darparu cadeiriau a byrddau ar gyfer y Neuadd Gymunedol a gafodd ei hailwampio'n ddiweddar yn Ludchurch. Bydd gwella'r adnoddau yn yr hwb cymunedol yn sicrhau y gellir cynnig cynhwysiant cymunedol a chymorth gwell yn y gymuned.</p>	10,039.00	5,000.00
<b>Arberth Amgueddfa</b>	<p>Mae siop goffi Amgueddfa Arberth yn lle cyfarfod poblogaidd i bobl o bob oedran. Mae hyn yn cynnwys pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl neu gorfforol, sy'n unig neu sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol. Mae llawer o drigolion sy'n agored i niwed yn mwynhau'r cyfleuster, ac mae'n helpu i gryfhau'r ymdeimlad o gydlyniant cymunedol sydd wedi bod yn isel iawn yn sgil y cynnydd yn nifer y bobl sy'n berchen ar ail gartrefi. Bydd y prosiect hwn yn cyflogi ac yn hyfforddi person ifanc i helpu gyda'r gwaith o ddatblygu'r cyfleuster a'r gwasanaethau a gynigir i gefnogi'r gwirfoddolwyr presennol.</p>	1,800.00	1,440.00

## Atodiad 1

Sefydliad	Crynodeb o'r prosiect	Cyfanswm cost y prosiect £	Cais am Grant Gwella Sir Benfro £
<p><b>Nanhyfer a Moyolegrove Cymdeithas Trewyddel</b></p>	<p>Bydd y ceisydd yn creu lle ar gyfer achlysuron awyr agored / gweithgareddau cymdeithasol ar diroedd Hen Neuadd yr Ysgol, Trewyddel, gan drawsffurfio ardal anwastad, anniogel a hyll trwy ailwynebu, cyflwyno seddau sefydlog a symudol, dysglau plannu ac adeiledd â gorchudd arno ar gyfer barbeciws a chownter gweini, wrth gynnal ei ddefnydd fel llain barcio.</p>	<p>4,838.00</p>	<p>3,938.00</p>
<p><b>Nanhyfer a Moyolegrove Cymdeithas Trewyddel 2</b></p>	<p>Bydd y prosiect yn creu llwyfan y gellir ei dynnu'n rhydd i wella a chynyddu nifer y digwyddiadau a'r sgysiau y gellir eu cynnal. Bydd cyfleuster storio pren allanol yn cael ei adeiladu gerllaw y neuadd i gadw'r llwyfan hwn, yn ogystal â'r offer, y byrddau a'r cadeiriau ychwanegol y bydd eu hangen i fodloni'r gofynion er mwyn sicrhau y gall fwy o bobl fynychu'r digwyddiadau a gwella'r amrywiaeth o glybiau a llogwyr preifat.</p>	<p>8,173.90</p>	<p>6,539.12</p>
<p><b>Nanhyfer a Moyolegrove Cymdeithas Arddwriaethol a Sioe Nanhyfer</b></p>	<p>Nod y prosiect hwn yw datblygu gwefan er mwyn helpu i leihau costau a rheoli a hyrwyddo'r sioe yn fwy effeithlon ac effeithiol. Bydd yn helpu gyda chynaliadwyedd a dyfodol Sioe Nanhyfer, sy'n elfen hirsefydledig o'r gymuned. Mae'r sioe yn gwella gwydnwch a'r ymdeimlad o gymuned yn yr ardal ac yn helpu i sicrhau bod pobl a busnesau lleol yn ffynnu.</p>	<p>17,280.00</p>	<p>13,824.00</p>
<p><b>Nanhyfer a Moylegrove Clychau Eglwys Sant Brynach</b></p>	<p>Mae'r prosiect hwn yn dilyn adfer Tŵr Normanaidd Eglwys Brynach Sant, Nanhyfer o'r 12fed ganrif, sy'n golygu adfer y 6 chloch sy'n dyddio o 1763. Yn gysylltiedig â hyn mae'r ceisydd yn bwriadu hyfforddi grŵp o glochydion yn barod ar gyfer dathlu cwblhau prosiect y Tŵr. Uchelgais y prosiect yw dylanwadu ar gymunedau iachach, diogelu'r amgylchedd, cyrraedd yn uwch a helpu creu cymuned fywiog.</p>	<p>56,470.00</p>	<p>11,000.00</p>
<p><b>Trefdraeth Ffrindiau Bro Ingl</b></p>	<p>Bydd prosiect Tanio Draig Tydrath yn cynorthwyo datblygu dinasyddion Cymraeg hyderus yn y dyfodol trwy gefnogi disgyblion ac aelodau'r gymuned i ddefnyddio'r Gymraeg oddi allan i'r ysgol. Ef cynnal amcan Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050.</p>	<p>2,964.00</p>	<p>2,000.00</p>

## Atodiad 1

Sefydliad	Crynodeb o'r prosiect	Cyfanswm cost y prosiect £	Cais am Grant Gwella Sir Benfro £
<b>Trefdraeth Fforwm</b>	Prosiect i droi'r Swyddog Cymorth Ymgysylltu presennol yn Swyddog Ymgysylltu a Gwydnwch. Bydd y rôl yn cynnwys gweithio gyda'r gymuned i ddatblygu a gweithredu gwaith Llesiant Treftadaeth yng Nghynllun Llesiant Treftadaeth sy'n cwmpasu creu gwydnwch yn yr economi leol, amgylchedd, treftadaeth, diwylliant a'r celfyddydau, yn ogystal ag iechyd a gofal cymdeithasol.	37,000.00	10,000.00
<b>Trefdraeth Grŵp Llwybrau</b>	Prosiect i ddisodli'r byrddau gwybodaeth Llwybr Mileniwm Trefdraeth a'r Llwybr Mynediad Hawdd sy'n adfeiliedig ac wedi dyddio yng nghanol meysydd parcio Trefdraeth a Pharrog gyda byrddau lliw, hygyrch sy'n dangos llwybrau cerdded gyda chodau QR sy'n cysylltu â gwybodaeth ar wefannau Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r Grŵp Llwybrau Trefdraeth.	5,932.50	4,746.00
<b>Trefdraeth Fforwm Cymunedol Trefdraeth a'r Cylch</b>	Bydd y prosiect yn datblygu a dosbarthu 'Llawlyfr i Drefdraeth' i bob cartref, i gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth trigolion a pherchenogion ail gartrefi fel ei gilydd, manteisio ar, a defnyddio mwy priodol o, wasanaethau (cymunedau iachach; gwell gofal cymdeithasol) a gwella cyfalaf cymdeithasol (cymuned hunangynhaliol a mwy bywiog).	5,000.00	2,596.00
<b>Trefdraeth Fforwm Cymunedol Tydraeth a'r Cylch</b>	Nod y prosiect yw helpu i wella llesiant unigolion a'r gymuned. Bydd y Swyddog Cymorth Ymgysylltu arfaethedig yn mynd ati i ddefnyddio'r gymuned, drwy gysylltu anghenion unigolion a grwpiau. Bydd hyn yn helpu i hwyluso dulliau cydweithredol o weithio, rhannu adnoddau, ymgysylltu â darparwyr gwasanaethau a chyflwyno gwelliannau i wasanaethau drwy gydgyhyrchu.	21,617.50	7,838.00

## Atodiad 1

Sefydliad	Crynodeb o'r prosiect	Cyfanswm cost y prosiect £	Cais am Grant Gwella Sir Benfro £
<b>Trefdraeth Cyngor Tref</b>	<p>Mae'r ceisydd yn prydlesu eiddo gan PCNPA. Amcan y datblygiad hwn yw ailsefydlu Canolfan Ymwelwyr i gynorthwyo busnesau lleol presennol a newydd trwy sefydlu gwasanaeth cymunedol a gwybodaeth, i gynnwys Llyfrgell Gymunedol Trefdraeth. Yng nghyfnodau'r dyfodol, uchelgais Cyngor y Dref yw creu ystafell cyfarfodydd cymunedol newydd a gofod Cyngor y Dref. Mae'r cais hwn yn cynorthwyo'r ceisydd i brynu offer i gefnogi'r agwedd hysbysrwydd cymunedol ar y datblygiad.</p>	25,559.86	18,649.11
<b>Trefdraeth Cyngor Tref</b>	<p>Prosiect peilot i gyflogi Swyddog Grantiau a Phrosiectau i gefnogi'r Cyngor Tref, grwpiau lleol, a'r gymuned ehangach i nodi prosiectau, ymchwilio i ffynonellau cyllid a helpu i ddatblygu cymwysiadau. Bydd deiliaid y swydd hon yn gweithio'n agos gyda chymunedau cyfagos a'r Swyddog Cymorth Ymgysylltu Fforwm Cymunedol Casnewydd.</p>	17,314.00	13,824.00
<b>Neyland Cyngor Tref</b>	<p>Mae'r ceisydd eisiau diweddarau 14 o fyrddau dehongli ar hyd llwybr natur a llwybr beicio Cei Brunel a Westfield Pill. Bydd y byrddau'n egluro hanes Neyland a bywyd gwylt lleol gan annog pobl i wneud y mwyaf o'u tref a hybu defnyddio'r llwybr natur. Mae'r llwybr yn ychwanegu gwerth at y gymuned leol a phrofiad yr ymwelydd. Mae hyn yn ffurfio un o nifer o gyfleoedd y mae Cyngor y Dref yn gobeithio'u datblygu i annog pobl i ymweld â Neyland gan liniaru effaith perchenogaeth ail gartref. Bydd Cyngor y Dref yn ysgwyddo cyfrifoldeb rheoli a chynnal y paneli hyn yn llawn.</p>	7,163.00	5,730.00
<b>Penfro Cyngor Tref</b>	<p>Mae Cyngor Tref Penfro yn gwneud cais i wella The Green, Penfro trwy uwchraddio'r cyfleusterau cymunedol mewn ward sy'n annigonol yn ei darpariaeth o gyfleusterau i'r cyhoedd. Ar ran y Green Park Group, mae'r Cyngor Tref yn gwneud cais i ddatblygu'r ardal chwarae yn ganolbwynt cymunedol sy'n groesawgar ac yn gynhwysol i drigolion o bob oed gael cymdeithasu a chymryd rhan mewn digwyddiadau ymarfer corff iach.</p>	50,524.00	39,951.50

## Atodiad 1

Sefydliad	Crynodeb o'r prosiect	Cyfanswm cost y prosiect £	Cais am Grant Gwella Sir Benfro £
<b>Penfro Ymddiriedolaeth Muriau Tref</b>	Mae'r ceisydd eisiau adfywio muriau gogleddol Penfro. Byddant yn cynnwys, denu ac ysbrydoli'r gymuned, hyfforddi gwirfoddolwyr lleol a phrentisiaid i'w clirio a'u hadfer yn ofalus, diogelu bioamrywiaeth yn y Warchodfa Natur Leol trwy ddull hirdymor cam wrth gam, gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid lleol, a chynnal rhaglen achlysuron a hysbysrwydd.	22,516.19	15,723.27
<b>Doc Penfro Cymunedau Arfordirol Ymddiriedolaeth Llongau Tal (Cymru)</b>	Bydd Prosiect Cymunedau Arfordirol Doc Penfro yn cynnig rhaglen gynhwysol ar gyfer pob cenhedlaeth a fydd yn seiliedig ar ddigwyddiadau morol, diwylliannol, addysgol ac sy'n ymwneud â threftadaeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar ŵyl Seafair Haven. Bydd y prosiect hwn a arweinir gan wirfoddolwyr yn adfywio'r gymuned ac yn helpu i leihau'r ymdeimlad o fod yn ynysig yn Noc Penfro. Bydd hefyd yn gwella cyfleoedd ar gyfer twristiaeth, yn denu pobl i ymweld â busnesau lleol ac yn annog cefnogaeth perchenogion ail gartrefi.	24,150.00	14,040.00
<b>Doc Penfro Canolfan Dreftadaeth</b>	Bydd ennill cydnabyddiaeth amgueddfaol ar lefel genedlaethol yn gwella safon ac ansawdd profiad ymwelwyr, gan roi dyfodol ariannol mwy sefydlog a chynaliadwy i'r ganolfan. Bydd yn cryfhau ei rôl mewn darparu cyfleoedd yng nghymunedau ehangach Doc Penfro a Phenfro. Mae cyflogi arbenigwyr i gyflenwi'r achrediad a hyfforddi'r staff a gwirfoddolwyr presennol i wella safonau yn hanfodol ar gyfer dyfodol y ganolfan.	19,675.00	15,740.00
<b>Doc Penfro Tim Tref</b>	Mae'r ceisydd yn gofyn am gymorth ariannol ar gyfer Hyrwyddwr Tref / Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned i Dîm y Dref. Bydd Hyrwyddwr y dref yn cynorthwyo datblygu a chyflawni prosiectau dynodedig, sicrhau cyllid, denu a chynnal gwirfoddolwyr. Bydd y swyddogaeth yn gweithio tuag at hunangynhaliaeth.	21,230.00	15,650.00



## Atodiad 1

Sefydliad	Crynodeb o'r prosiect	Cyfanswm cost y prosiect £	Cais am Grant Gwella Sir Benfro £
<b>Saundersfoot Clwb Bowlio</b>	Nod y prosiect hwn yw gwella'r llwybrau cerdded o amgylch y lawnt fowlio yn Saundersfoot drwy osod llwybr concrid gwell, sy'n addas ar gyfer pob lefel o symudedd. Bydd hefyd yn gosod ffensys terfyn a gathiau newydd yn arwain at y lawnt a'r clwb yn lle'r rhai sydd wedi'u difrodi. Mae'r mynediad i'r lawnt a'r diogelwch yn hollbwysig er mwyn hyrwyddo'r cyfleusterau i drigolion, perchenogion ail gartrefi ac ymwelwyr.	35,213.10	28,170.48
<b>Saundersfoot Siambr Dwrstiaeth</b>	Nod y prosiect hwn yw darparu'r seilwaith, yr hyfforddiant a'r cyfryngau cymdeithasol sydd eu hangen i gynnal ac ail-lansio Rhaglen Ddigwyddiadau Mawr y Pentref yn Saundersfoot.	49,555.00	36,243.98
<b>Saundersfoot Cyngor Cymuned</b>	Nod y prosiect "maes chwarae wedi'i ailgylchu" yw gosod cyfleuster newydd yn lle'r maes chwarae plant sydd yno'n barod ac sy'n dirywio yng nghanol y pentref. Bydd yr offer, a fydd yn defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu a darpariaeth ailgylchu sy'n addas i blant, yn apelio at amrywiaeth o oedrannau a galluoedd i alluogi pob plentyn i gael ardal chwarae sy'n addas i'r 21ain Ganrif.	31,996.00	25,000.00
<b>Saundersfoot Clwb Criced – Clwb Pêl-droed Saundersfoot</b>	Bydd y prosiect hwn yw hwyluso prynu peiriant torri glaswellt a rowlar; sy'n hanfodol ar gyfer gwaith cynnal a chadw ar gyfer y man gwyrdd mwyaf helaeth ym mhentref Llanusyllt, gan gefnogi mannau a gweithgareddau hamdden gwyrdd y clybiau criced a phêl-droed.	44,394.00	35,515.20
<b>Saundersfoot Canolfan Gymunedol Regency Hall</b>	Nod y prosiect yw prynu 50 o gadeiriau sy'n hawdd eu glanhau a'u diheintio ac sy'n stacio ar gyfer y neuadd. Bydd y rhain yn disodli hen gadeiriau sydd wedi'u difrodi ac wedi'u gorchuddio â ffabrig. Maent hefyd yn dymuno disodli'r Gwrthdröydd Panel Solar ac Optimeiddwyr sydd heb fod mewn defnydd ers 2018.	7,446.82	5,957.46

## Atodiad 1

Sefydliad	Crynodeb o'r prosiect	Cyfanswm cost y prosiect £	Cais am Grant Gwella Sir Benfro £
<b>Saundersfoot Cylch Chwarae</b>	Mae'r ceisydd eisiau helaethu'r gofal plant a gynigiant ar hyn o bryd er mwyn i rieni lleol allu manteisio ar 30 awr o ofal plant wedi'i dalu gan Lywodraeth Cymru trwy gynnig, mewn cydweithrediad ag Ysgol Saundersfoot, gwasanaeth cylch chwarae a gofal dydd cofleidiol am y diwrnod cyfan.	19,668.39	12,631.39
<b>Saundersfoot Nofio Dydd Calan</b>	Mae'r ceisydd wedi nodi trwy wersi a ddysgwyd yn 2018 mae angen canolbwynt i gyfranogwyr ar y traeth. Bydd hyn yn sicrhau bod holl gyfathrebu â chyfranogwyr yn cael ei gyfleu o fan gweladwy. Maent hefyd wedi nodi bod angen gwahanu'n fwy effeithiol rhwng nofwyr a gwylwyr, fel bod nofwyr yn cael blaenoriaeth wrth adael y traeth.	2,858.99	2,287.19
<b>Saundersfoot Nofio Dydd Calan</b>	Nod y prosiect hwn yw gwella'r safonau iechyd a diogelwch yn y Digwyddiad Nofio yn Saundersfoot ar Ddydd Calan drwy ychwanegu'r eitemau canlynol: 1) Man penodol ar gyfer nofwyr sydd heb gofrestru o'r blaen. 2) Rhwystrau diogelwch sy'n cyrraedd ymyl y dŵr er mwyn atal gwylwyr rhag mynd yn agos at y nofwyr.	2,420.00	1,900.00
<b>Solfach Cyngor Cymuned</b>	Datblygu Adeilad Clwb Pêl-droed Solfach – Cynlluniwyd Canolfan Gymunedol y Pâl ar ddau gyfnod. Mae'r cais hwn ar gyfer cynorthwyo cyfnod 1, sef prynu'r adeilad a'r ardal barcio. Cyfnod 2 fydd ailwampio Canolfan Gymunedol y Pâl.	25,880.00	20,704.00
<b>Solfach Cyngor Cymuned</b>	Datblygu maes chwarae diogel sy'n addas i'w bwrpas a fydd o fudd i lesiant teuluoedd sy'n mynd â'u plant i chwarae yno. Bydd hyn yn cyfrannu at gymuned fywiog a hunangynhaliol a fydd yn tynnu sylw at effeithiau negyddol ail gartrefi. Rhaid newid un eitem ar frys am resymau diogelwch a nodwyd gan Gyngor Sir Penfro.	13,628.20	10,910.56

## Atodiad 1

Sefydliad	Crynodeb o'r prosiect	Cyfanswm cost y prosiect £	Cais am Grant Gwella Sir Benfro £
<p><b>Tyddewi Amaethyddiaeth Gymunedol Organig Caerhys (COCA)</b></p>	<p>Caiff cynllun Amaethyddiaeth Gymunedol Organig Caerhys (COCA) ei gefnogi gan y gymuned leol a fydd yn cael budd ohono. Mae 50 o deuluoedd sy'n aelodau o COCA yn rhannu bwyd organig sy'n cael ei dyfu mewn partneriaeth â ffermwyr lleol. Nod y prosiect yw adnewyddu Cartref, sef adeilad beliau gwellt a ddefnyddir fel canolfan ymarferol a chymdeithasol COCA. Mae caniatâd cynllunio wedi cael ei ystyried ac mae'r brydles yn caniatáu'r gwaith datblygu.</p>	9,760.00	7,750.00
<p><b>Tyddewi Cyngor Dinas</b></p>	<p>Bydd y ceisydd yn gosod goleuadau diogelwch paneli haul yn y cyfleusterau sglefrio a'r offer cadw'n heini awyr agored yng nghae chwarae Waunfawr. Cytunwyd ar y safle sy'n cael ei ddatblygu trwy ymgynghori â'r gymuned, ond daw goleuadau stryd i ben yn union cyn y safle. Mae hyn yn peri problemau yn ystod y gaeaf. Er mwyn defnyddio'r safle gydol y flwyddyn a mynediad hwy, mae'r ceisydd wedi nodi'r prosiect hwn, sef gosod 3 golau diogelwch panel haul. Byddai'r goleuadau hyn yn ynni-effeithlon, yn cael eu gyrru gan yr haul ac yn gofyn dim gweithredu â llaw oherwydd bod synwryddion goleuni'n eu rheoli.</p>	5,420.00	4,336.00
<p><b>Tyddewi Clwb Achub Bywydau Ewyn Môr Porthmawr</b></p>	<p>Mae'r ceisydd yn gofyn am gymorth ariannol ar gyfer costau gosod taflunydd a sgrin er mwyn gallu cynnal cyrsiau achub bywyd a chymorth cyntaf o'r clwb. Mae'r cyrsiau hyn yn cynnwys Achubwyr Traeth, Plant ac Achubwyr Bywydau Iau Traeth Galwedigaethol Cenedlaethol, Cymorth Cyntaf yn y Gwaith, Diffibrilio Cymunedol RLSS a hyfforddiant cynefino Achubwyr RNLI.</p>	949.99	760.00
<p><b>Tyddewi Clwb Rygbi</b></p>	<p>Bydd y prosiect yn gosod boeler newydd, mwy effeithiol yn lle'r hen fodel sydd yno ar hyn o bryd. Bydd hyn yn golygu bod y cyfleuster yn fwy apelgar a chroesawgar i gynnal mwy o weithgareddau cymunedol drwy gydol y flwyddyn.</p>	17,860.00	14,288.00

## Atodiad 1

Sefydliad	Crynodeb o'r prosiect	Cyfanswm cost y prosiect £	Cais am Grant Gwella Sir Benfro £
<b>Tyddewi Tŷ Shalom</b>	<p>Nod y prosiect yw darparu Bath Therapi Arjo yn y ganolfan i gleientiaid allu defnyddio gwasanaethau hylendid a therapïau. Bydd hyn yn gwella llesiant cleifion ac yn helpu gofalwyr a all fod yn cael trafferth golchi cleifion yn ddigonol gartref. Bydd boeler / system wresogi a system ddŵr newydd yn gwella effeithlonrwydd ynni.</p>	29,884.27	23,907.00
<b>Llandudoch Clwb Pêl-droed</b>	<p>Bydd y prosiect yn cyflogi contractwyr arbenigol i ddarparu draeniau ar gae chwarae Ysgol Llandudoch gan sicrhau defnydd mwy estynedig gan y gymuned drwy gydol y flwyddyn.</p>	8,500.00	6,500.00
<b>Llandudoch Ffrindiau Ysgol</b>	<p>Bydd y prosiect hwn yn galluogi disgyblion o Ysgol Llandudoch i wahodd teuluoedd, clybiau a grwpiau lleol yn ogystal â'r gymuned ehangach i gael profiad o ddysgu yn yr awyr agored ym mherllan a thraeth y gymuned leol. Bydd cysylltu â'r amgylchedd lleol o fudd i iechyd a llesiant cyfranogwyr ac yn annog cymuned hunangynhaliol ac agos. Bydd hefyd yn rhoi cyfleoedd i ddod ag aelodau o'r gymuned o bob oedran at ei gilydd i adfywio Llandudoch.</p>	8,439.08	7,545.51
<b>Llandudoch Sioe Bentref</b>	<p>Nod y prosiect hwn yw cynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan yn Sioe Bentref Llandudoch a gaiff eu tangynrychioli yn y gymuned. Bydd yn datblygu ac yn darparu gweithdai cyn y sioe sydd wedi'u targedu at gategoriâu penodol yn y sioe, i ennyn diddordeb mwy o bobl a chynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan.</p>	1,077.48	861.98
<b>Llandudoch Tafarn Gymunedol Yr Hydd Gwyn</b>	<p>Nod y prosiect yw prynu'r dafarn draddodiadol olaf yn Llandudoch, 'Yr Hydd Gwyn', sydd wedi bod yno ers 250 o flynyddoedd, a'i newid i fod yn gyfleuster y mae'r gymuned yn berchen arno. Bydd yn cyfrannu at yr economi leol, yn gwella'r ymdeimlad o gymuned ac yn creu canolbwynt i fywyd y pentref.</p>	257,600.00	25,000.00

## Atodiad 1

Sefydliad	Crynodeb o'r prosiect	Cyfanswm cost y prosiect £	Cais am Grant Gwella Sir Benfro £
<b>St Florence Cyngor Cymuned</b>	<p>Nod y prosiect hwn yw datblygu ardal chwarae St Florence er mwyn helpu plant i ddysgu a datblygu drwy chwarae. Mae angen atgyweirio a diweddarau'r cyfleusterau chwarae presennol. Drwy gydweithio i ddatblygu'r ardal chwarae, nod y prosiect yw helpu plant i ddatblygu sgiliau pwysig ar gyfer y dyfodol a hyrwyddo llesiant yn y gymuned.</p>	16,357.64	13,064.82
<b>St Ishmaels Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol yr Arfordir</b>	<p>Nod y prosiect hwn yw adnewyddu a darparu mwy o offer chwarae awyr agored yn yr ysgol. Cydnabyddir bod cyfleoedd o ansawdd i blant chwarae yn gwella eu cyflawniad a'u llesiant corfforol ac emosiynol. Bydd ysgol sydd ag adnoddau da yn fwy deniadol i deuluoedd ac yn denu pobl i fyw yn nalgylch yr ysgol, gan wella cynaliadwyedd y pentrefi yn y dalgylch.</p>	15,786.00	9,000.00
<b>Tredemel Cyngor Cymuned</b>	<p>Bydd y prosiect hwn yn darparu adnoddau fydd wrth galon y gymuned - rhai fydd yn gwella'u cyfleusterau cymdeithasol a hamdden lleol. Bydd yn rhoi hwb i gryfderau a bywiogrwydd y gymuned gan ddarparu lleoliad deniadol i bobl fyw, dysgu, gweithio a chymdeithasu ynddo hefyd.</p>	5,174.11	4,140.00
<b>Dinbych-y-pysgod Ymddiriedolaeth Pafiliwn De Valence</b>	<p>Nod y prosiect hwn yw gwella'r system sain a goleuadau llwyfan i fodloni gofynion y sawl sy'n perfformio yn y lleoliad. Bydd yn galluogi Pafiliwn De Valence i wella ei raglen o ddigwyddiadau a gwella ei hyblygrwydd a'i argaeledd ar gyfer trefniadau a chynaliadwyedd yn y dyfodol.</p>	88,282.59	64,482.59

## Atodiad 1

Sefydliad	Crynodeb o'r prosiect	Cyfanswm cost y prosiect £	Cais am Grant Gwella Sir Benfro £
<b>Dinbych-y-pysgod Amgueddfa ac Oriel Gelf</b>	<p>Bydd y ceisydd yn cyflogi cydgysylltydd achlysuron ac ymgysylltu â'r gymuned i weithio gyda'r gymuned leol i ddatblygu'r amgueddfa a'i chasgliad gan ganolbwyntio ar ddatblygu cymuned gydlynol a bywiog. Bydd deiliad newydd y swydd yn cynnal sgysiau ac yn datblygu achlysuron a gweithgareddau sy'n rhoi cyfleoedd ymgysylltu cymdeithasol a gwirfoddoli gydol y flwyddyn. Bydd yr ymgysylltu cymdeithasol gydol y flwyddyn yn hybu datblygu sgiliau ac ymdeimlad o ffyniant trwy weithgareddau gwirfoddoli. Bydd achlysuron ychwanegol drwy gydol y flwyddyn yn cefnogi economi ymwelwyr y tymor distaw mewn tref glan môr sy'n teimlo effaith gormodedd o ail gartrefi.</p>	30,000.00	25,000.00
<b>Dinbych-y-pysgod Papur Newydd 'The Tenby Talking'</b>	<p>Nod prosiect Papur Newydd 'The Tenby Talking' (TTN) yw diweddarau ei offer recordio. Bydd hyn yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir i tua 75 o bobl leol â nam ar y golwg, drwy gynnig newyddion a gwybodaeth ar ffurf tapiau sain o bapur newydd wythnosol y Tenby Observer. Mae'r gwasanaeth pwysig hwn yn rhoi cyfle i gyfranogwyr fod yn rhan o'u cymuned a chadw mewn cysylltiad â hi.</p>	6,550.00	5,240.00
<b>Dinbych-y-pysgod Cyngor Tref</b>	<p>Nod y prosiect hwn yw gwella'r cyfleusterau i bobl anabl sy'n byw yn Ninbych-y-pysgod ac sy'n ymweld â'r dref. Caiff byrddau picnic sy'n addas i gadeiriau olwyn yn eu gosod yn ardal yr harbwr, a chaiff dwy gadair olwyn sydd wedi'u haddasu'n arbennig eu darparu, er mwyn galluogi plant a phobl ifanc sydd â phroblemau symudedd i gyrraedd y traeth a'r môr.</p>	7,288.00	4,193.00
<b>Dinbych-y-pysgod Cyngor Tref</b>	<p>Nod y prosiect hwn yw gwella a diweddarau'r cyfleusterau ym Mharc Sglefrio a Chwarae Jiwbilf. Bydd yn gwella'r cyfleoedd chwarae a'r gweithgareddau ar olwynion yn Ninbych-y-pysgod yn ogystal â phrofiadau chwarae pobl ifanc.</p>	70,895.15	46,943.79

## Atodiad 1

Sefydliad	Crynodeb o'r prosiect	Cyfanswm cost y prosiect £	Cais am Grant Gwella Sir Benfro £
<b>Yr Havens Cynor Cymuned</b>	Prosiect i uwchraddio rhan o faes chwarae'r plant yn Aberllydan. Mae'r maes chwarae presennol yn dod i ddiwedd ei oes ac mae archwiliad iechyd a diogelwch diweddar wedi nodi bod angen trwsio neu gael gwared ag offer.	33,317.83	26,654.26
<b>Yr Havens Mae Broad Haven yn cefnogi'r llwybr pren</b>	Bydd y prosiect yn gyfnod terfynol adnewyddu 'Slashpond Boardwalk' sy'n llwybr diogel i'r ysgol a llwybr natur cymunedol hygyrch. Bydd yn cynorthwyo ailwynebu darn olaf y16,766 llwybr lludw presennol gyda llwybr bordiau isel o Gripdeck; gan gysylltu'r lle picnic gyda llwybr bordiau presennol. Bydd hyn yn cyflawni taith gylch gyflawn ac amwynder hamdden deniadol i bawb drwy gydol y flwyddyn ac ar bob tywydd.	21,900.00	17,520.00
<b>Yr Havens Pwyllgor Neuadd Goffa Bowen</b>	Nod y prosiect hwn yw darparu offer i wella effeithlonrwydd y gwres a'r golau yn y brif neuadd yn ogystal â'r gwres yn yr ystafell bwyllgora a'r gegin. Mae'r pwyllgor am sicrhau y gwneir y defnydd gorau o'r adeilad, gan ddefnyddio ystafell fach sydd heb wres ar hyn o bryd i gynnal cyfarfodydd bach a'i gwneud hi'n haws ac yn fwy effeithlon i bobl sy'n defnyddio'r neuadd reoli'r taliadau ar gyfer defnyddio golau a gwres.	5,890.00	4,712.00
<b>Yr Havens Neuadd Goffa Bowen, Yr Aber Bach</b>	Bydd y ceisydd yn ailwampio ac yn gwella'r cyfleusterau yn Neuadd yr Aber Bach gyda'r prif ganolbwynt ar osod cegin newydd. Byddai hyn yn moderneiddio'r cyfleusterau presennol i wneud y Neuadd yn fwy deniadol, croesawus ac ystyriol o ddefnyddwyr.	11,196.55	8,957.24
<b>Yr Havens Clwb Bowlio Matiau Byr yr Aber Bach</b>	Bydd y prosiect yn galluogi i'r clwb ddal i weithio ar waethaf oed a gallu corfforol ei aelodau trwy ddarparu cyfleuster dirwyn a storio trydanol. Oherwydd bod y rhan fwyaf o'u haelodau'n 70 oed a hŷn mae hwn yn waith anodd a pheryglus.	6,006.00	4,816.80

## Atodiad 1

Sefydliad	Crynodeb o'r prosiect	Cyfanswm cost y prosiect £	Cais am Grant Gwella Sir Benfro £
<b>Wison Cymdeithas Clwb Pêl-droed Clarbeston Rd</b>	Nod y prosiect yw paratoi ar gyfer y gwaith o adeiladu ystafelloedd newid/ystafell gyfarfod newydd a gynlluniwyd, sydd heb gael ei ariannu eto. Mae'r gwaith yn cynnwys cael gwared ar bridd sydd dros ben, proffilio'r safle, gwaith draenio, ymestyn ardaloedd y meysydd parcio a gwaith paratoi ar gyfer ôl-troed yr adeilad arfaethedig.	23,483.00	7,211.00
<b>Cas-blaidd CRhA</b>	Bydd y prosiect yn darparu rhagor o ofal ar ôl yr ysgol i ddisgyblion. Bydd y ddarpariaeth hon yn ddwyieithog ac yn gysylltiedig â'r cwricwlwm a chynllun gwella'r ysgol. Bydd yn creu gofod cymdeithasol lle gall rhieni newydd a phresennol ddatblygu eu Cymraeg a dysgu am ddiwylliant y gymuned.	2,457.00	1,021.00
<b>Strategol Age Cymru Dyfed</b>	Bydd Age Cymru Dyfed yn hyrwyddo a darparu gwasanaethau allgymorth o Hwlfordd ledled Sir Benfro. Bydd hyn yn cefnogi pobl hŷn i gynnal eu hiechyd a'u hannibyniaeth, a bod mewn sefyllfa gryfach i aros gartref yn eu cymuned leol. Bydd y prosiect hwn yn helpu i fynd i'r afael â'r unigrwydd y gall perchnogaeth ail gartrefi a chartrefi gwag ei achosi.	96,153.00	30,433.00
<b>Strategol Cantabile Singers of Pembrokeshire</b>	Bydd gweithgareddau'r côr yn annog y gymuned ardaloedd anghysbell i gymryd rhan drwy ganu. Byddant yn fuddiol i bobl sydd â dementia, problemau iechyd meddwl neu sy'n unig, gan wella llesiant pawb. Nod y prosiect hwn yr darparu'r offer PA sydd ei angen i gyrraedd cynulleidfaoedd mwy, gorbenion perfformio a phrynu taflenni caneuon Cymraeg a Saesneg i ennyn diddordeb a chefnogi cynulleidfaoedd mwy. Prosiect Strategol Sir Benfro.	2,972.00	2,377.60
<b>Strategol Gofal mewn Galar Cruse</b>	Bydd ceisydd y prosiect yn cynnal achlysuron am ddim i gynyddu ymwybyddiaeth ac ymgysylltu ag aelodau hŷn agored i niwed mewn cymunedau lle mae llawer o ail gartrefi. Bydd yn cynnig cyngor ar wynebu profedigaeth a chyfle i drafod materion ynghylch marwolaeth mewn awyrgylch	4,065.00	3,252.00



## Atodiad 1

Sefydliad	Crynodeb o'r prosiect	Cyfanswm cost y prosiect £	Cais am Grant Gwella Sir Benfro £
	cymdeithasol hamddenol. Yn Sir Benfro, bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu i Wirfoddolwyr Profedigaeth a Goruchwylwyr Gwirfoddolwyr, yn ogystal â chyflwyno rhaglen o siaradwyr i weithio gyda chymunedau a gwirfoddolwyr.		
<b>Strategol Hwlfordd Ymddiriedolaeth Bridge Meadow</b>	Nod y prosiect hwn yw gosod pont sy'n cwblhau llwybr cerdded cylchol i'r Gogledd o Hwlfordd. Bydd hyn yn gwella'r cysylltiadau yn Hwlfordd, ac yn cynnig buddiannau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol ac o ran iechyd.	79,752.00	30,752.00
<b>Strategol CIC Haverhub</b>	Cael diben newydd i adeilad rhestredig Gradd II yng nghanol tref Hwlfordd - gan dynnu ynghyd y sectorau cymdeithasol, masnachol, dechrau busnes, hanesyddol a hamdden. Bydd y prosiect yn ymwneud â phob oed / diddordeb mewn lleoliad gydol y flwydd yng nghanol y dref. Fel prosiect cymunedol amlochrog mae'r cais hwn am gymorth ariannol yn benodol o safbwynt cyfalafol ar gyfer ail-ffitio trydanol a mecanyddol a chael cyllid i gyflogi dau aelod rhan-amser o'r staff.	184,000.00	79,000.00
<b>Strategol Life Seeker CIC</b>	Mae Positive Living Pembrokeshire yn cynnig cynnal a chadw llesiant ac egni cymunedau trwy ddatblygu cynnwys a chynyddu cylchrediad papur newydd digidol Life Seeker sy'n trafod byw'n gadarnhaol. Cynlluniwyd yr adnodd cynhwysol hwn yn rhad ac am ddim er mwyn annog, addysgu a sbarduno trigolion i weithredu a chymryd cyfrifoldeb dros feithrin eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl. Buddsoddir arian mewn ysgrifennu creadigol, y cyfryngau cymdeithasol a chymorth technegol.	7,680.00	1,950.00
<b>Strategol MIND Sir Benfro Cyf</b>	Ar y cyd â Pinkspiration, Heddlu Dyfed Powys, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Diogelwch Cymunedol Cyngor Sir Penfro, Gwasanaethau Ieuenctid Cyngor Sir Penfro ac eraill, mae Mind Sir Benfro yn trawsnewid storfa nas defnyddiwyd yn ofod bywiog, aml-weithredol. Mae nifer y bobl sy'n cyrchu eu gwasanaethau yn cynyddu. Mae angen i'r	44,725.00	35,781.00

## Atodiad 1

Sefydliad	Crynodeb o'r prosiect	Cyfanswm cost y prosiect £	Cais am Grant Gwella Sir Benfro £
	ganolfan fod yn gwbl hygyrch a byddai'r cais hwn yn cefnogi hynny pe bai'n llwyddiannus.		
<b>Strategol Chasnewydd Rhwydwaith Gwydn Gwydn Gwydnwch Rhwydwaith Sir Benfro (Plotiau Sir Benfro)</b>	Hyrwyddo a datblygu rhandiroedd, gan annog safleoedd newydd a thir tyfu cymunedol. Bydd y prosiect yn datblygu rhwydwaith gan gysylltu mentrau gwydnwch presennol a meithrin sgiliau hunan-reoli er mwyn helpu i wneud rhandiroedd yn hyfyw a chynaliadwy gan sicrhau eu bod yn cyflawni nodau lles ac amgylcheddol traddodiadol.	31,925.00	25,540.00
<b>Strategol Clwb Athletau Neyland CIC</b>	Mae CIC Neyland yn datblygu 'Canolbwynt Neyland' mewn partneriaeth â dros ddeg o fudiadau cymunedol a darparwyr gwasanaethau lleol gan gynnwys Cyngor Sir Penfro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Chyngor Tref Neyland. Bydd y canolbwynt hwn yn cydleo'i gwasanaethau statudol, cymunedol a gwirfoddol mewn man cyfarfod hygyrch modern yn Neyland. Mae'r cais ar gyfer cynorthwyo nifer o elfennau arwahanol sef pared rhannu ystafell i hybu defnyddio'r ystafell i'w heithaf a defnydd amrywiol, gwaith allanol sy'n galluogi gwell mynediad a gwaith amgylcheddol i'r Canolbwynt.	2,346,227.00	111,317.00
<b>Strategol Paul Sartori Foundation Limited</b>	Mae "We Care: Volunteering Support" yn brosiect sy'n ymestyn dros flwyddyn a fydd yn gwella seilwaith gwirfoddolwyr Paul Sartori a chefnogi'r gymuned wirfoddoli ledled Sir Benfro. Bydd y prosiect yn mynd i'r afael â materion ynghylch perchnogaeth ail gartrefi gan gynyddu'r ymdeimlad o ymgysylltiad cymunedol a chynnig cyfleoedd i gysylltu pobl trwy hyfforddiant, diwrnodau agored, digwyddiadau cymdeithasol newydd ac allgymorth a chyfathrebu cymunedol ehangach.	37,267.50	29,814.00
<b>Strategol Cymdeithas Hanes Penfro a Chil-maen</b>	Mae'r prosiect yn dathlu ac yn hybu treftadaeth hanesyddol a diwylliannol Penfro yn ogystal â'i bwysigrwydd strategol a hanesyddol i Sir Benfro. Mae'r cerflun o William Marshal ar gefn geffyl yn ffigwr efydd gwir faint ar blinth carreg. Wedi'i leoli wrth ymyl y castell, bydd yn amlwg i bob ymwelydd sy'n cyrraedd y dref.	65,960.00	30,000.00

## Atodiad 1

Sefydliad	Crynodeb o'r prosiect	Cyfanswm cost y prosiect £	Cais am Grant Gwella Sir Benfro £
<b>Strategol Clwb Bowlio Dan Do Sir Benfro</b>	Nod y prosiect hwn yw gosod carped newydd yn lle'r carped sydd ag ôl traul arno yn y man dynodedig a ddefnyddir gan bedwar sefydliad bowlio dan do gwahanol yng Nghanolfan Hamdden y Meads. Mae ansawdd y carped yn hollbwysig er mwyn sicrhau y gellir chwarae'r math hwn o chwaraeon. Nid oes gan berchennog yr adeilad yr arian i newid y carped. Unwaith y bydd wedi'i wella, y Clwb Bowlio fydd yn defnyddio'r cyfleuster hwn fwyaf.	24,480.00	19,584.00
<b>Strategol Rhoi Pobl Sir Benfro'n Gyntaf</b>	Bydd Rhoi Pobl Sir Benfro'n Gyntaf yn cynnig 10 awr o eiriolaeth yr wythnos am gyfnod o 12 mis, gan ganolbwyntio ar gymorth Ariannol a Thai. Bydd deiliad y swydd yn ymgymryd ag achosion eiriolaeth 1 i 1 ac ymgyrchu ynghylch effaith materion tai ar aelodau Rhoi Pobl Sir Benfro'n Gyntaf yn y sir. Materion tai a rheoli cyllid yw dau o'r materion pwysicaf sy'n effeithio ar gleientiaid a'u cymorth. Trwy swydd ganolbwyntiedig 10 awr yr wythnos gallant gynorthwyo mwy o gleientiaid gyda'r materion arbennig hyn.	9,611.29	7,689.08
<b>Strategol Rhoi Pobl Sir Benfro'n Gyntaf - 2il flwyddyn</b>	Fel rhan o'r agenda ataliol, nod prosiect Pobl yn Gyntaf Sir Benfro yw treialu'r canlynol: a) Darpariaeth eirioli arbenigol i rieni ag anawsterau dysgu sy'n defnyddio gofal plant, i'w gwneud hi'n llai tebygol y bydd angen iddynt defnyddio gwasanaethau yn y dyfodol. b) Profi dulliau gweithredu i sicrhau bod sefydliadau eirioli arbenigol yn cydweithio â'i gilydd, er mwyn gwella cynaliadwyedd a pharhad gwasanaethau yn Sir Benfro.	35,929.00	28,000.00
<b>Strategol Gofal Solfach</b>	Bydd y prosiect yn ychwanegu at y cymorth a chefnogaeth gymunedol sydd ar gael ar hyn o bryd; cydgysylltu a chydweithio â gofal cartref i sicrhau gwasanaeth cymunedol cyfannol; datblygu a chyflawni rhaglen iechyd ataliol; rhannu profiad / dysg hyd yma gydag eraill; ymateb i anghenion eginol yng nghymuned Solfach.	46,555.82	34,222.06

## Atodiad 1

Sefydliad	Crynodeb o'r prosiect	Cyfanswm cost y prosiect £	Cais am Grant Gwella Sir Benfro £
<b>Strategol SPAN Arts</b>	Cynllun gwirfoddoli strategol celfyddydau rhwng cenedlaethau yw 'Cysylltu a Chreu' dros Sir Benfro gyfan, gan roi sgiliau, hyfforddiant ac achrediad mewn creu, cynhyrchu a hybu'r celfyddydau ledled Sir Benfro. Bydd 200 o wirfoddolwyr yn cael ac yn rhannu sgiliau trosglwyddadwy ac yn cael profiad o weithio mewn cymunedau a chyfrannu at adfywio a chyfoethogi bywyd yn Sir Benfro.	65,460.00	45,000.00
<b>Strategol Span Arts – 2il flwyddyn</b>	Dyma ail flwyddyn cynllun elusen Span Arts o wirfoddoli ym maes celfyddydau i bob cenedlaeth, sydd wedi'i gynllunio am ddwy flynedd. Bydd y cynllun hwn yn galluogi 200 o wirfoddolwyr i feithrin sgiliau, cwblhau hyfforddiant ac achrediad mewn creu a hyrwyddo'r celfyddydau ledled Sir Benfro. Byddant yn rhannu sgiliau trosglwyddadwy, yn cael profiad o weithio mewn cymunedau ac yn cyfrannu at y broses o adfywio a chyfoethogi bywyd yn Sir Benfro.	63,322.29	36,113.86
<b>Strategol Cwmni Theatr y Torch Cyf Prosiect Strategol</b>	Nod prosiect Theatr y Torch yw cwblhau gwaith atgyweirio brys ar yr adeilad yn dilyn difrod sylweddol gan storm i ochrau gogleddol a gorllewinol y tŵr ym mis Chwefror, 2020. Bydd y gwaith yn diogelu'r adeilad a'r amrywiaeth eang o weithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yno.	100,489.90	13,524.00
<b>Strategol Ewch i Sir Benfro</b>	"Dyma Sir Benfro" yw'r prosiect hwn - datblygu brand a stori a rannwyd sy'n hyrwyddo'r hyn sydd gan Sir Benfro i'w gynnig trwy gydol y flwyddyn trwy ymgyrch Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus integredig dros 12 mis.	250,637.00	91,000.00
<b>CYFANSWM</b>		<b>5,463,241.62</b>	<b>1,814,640.68</b>

## FAINT O GYMORTH ARIANNOL SYDD AR GAEL I BOB ARDAL 2021-22

Ardal	Cyfanswm yr Anheddau yn y Gymuned 2021-22	Nifer yr Ail Gartrefi yn y Gymuned 2021-22	% yr Ail Gartrefi o Gyfanswm yr Anheddau yn y Gymuned 2021-22	Ail gartrefi yn y Gymuned fel % arwyddol o gyfanswm yr Ail Gartrefi yn Sir Benfro 2020-21	Tanwariant 2018-2020 yn treiglo i 2021-22	Dyraniad 2021-22	Cyfanswm ar gael yn 2021-22
Dinbych-y-pysgod	2668	488	18	13	132,640.62	97500	230,140.62
Saundersfoot	1507	287	19	8	59,343.96	60000	119,343.96
The Havens	738	214	30	6	60,842.70	45000	105,842.70
Trefdraeth	756	185	25	5	48,525.89	37500	86,025.89
Tyddewi a Chlos yr Eglwys Gadeiriol	1034	168	16	5	45,957.00	37500	83,457.00
Abergwaun ac Wdig	2808	125	5	3	955.26	22500	23455.26
Aberdaugleddau	7076	114	2	3	13,476.50	22500	35,976.50
Hwlfordd	5913	110	2	3	17,123.00	22500	39,623.00
Llandudoch	781	110	14	3	22,646.26	22500	45,146.26
Penfro	3884	102	3	3	3,580.23	22500	26,080.23
Amroth	704	101	14	3	10,821.70	22500	33,321.70
Solfach	470	93	20	3	20,776.44	22500	43,276.44
Doc Penfro	4675	83	2	2	2,019.00	15000	17,019.00

## Atodiad 2

Ardal	Cyfanswm yr Anheddau yn y Gymuned 2021-22	Nifer yr Ail Gartrefi yn y Gymuned 2021-22	% yr Ail Gartrefi o Gyfanswm yr Anheddau yn y Gymuned 2021-22	Ail gartrefi yn y Gymuned fel % arwyddol o gyfanswm yr Ail Gartrefi yn Sir Benfro 2020-21	Tanwariant 2018-2020 yn treiglo i 2021-22	Dyraniad 2021-22	Cyfanswm ar gael yn 2021-22
Llandyfai	728	79	11	2	31,694.00	15000	46,694.00
Dinas Cross	469	73	16	2	29,605.00	15000	44,605.00
Llanrhian	498	66	13	2	31,456.72	15000	46,456.72
Maenorbyr	649	61	9	2	23,097.00	15000	38,097.00
Penalun	451	51	11	1	31,984.00	7500	39,484.00
Nanhyfer	432	50	12	1	1,121.12	7500	8,621.12
Pencaer	243	45	19	1	24,979.00	7500	32,479.00
	293	45	15	1	12,353.96	7500	19,853.96
Cilgerran	749	44	6	1	19,476.75	7500	26,976.75
Dale	139	44	32	1	21,504.00	7500	29,004.00
Arberth	1476	44	3	1	5,798.23	7500	13,298.23
Marloes and Sain Ffraid	193	38	20	1	7,089.44	7500	14,589.44
Nolton a'r Garn	500	38	8	1	28,139.00	7500	35,639.00
East Williamston	912	37	4	1	21,027.00	7500	28,527.00
Neyland	1678	35	2	1	13,746.00	7500	21,246.00

## Atodiad 2

Ardal	Cyfanswm yr Anheddau yn y Gymuned 2021-22	Nifer yr Ail Gartrefi yn y Gymuned 2021-22	% yr Ail Gartrefi o Gyfanswm yr Anheddau yn y Gymuned 2021-22	Ail gartrefi yn y Gymuned fel % arwyddol o gyfanswm yr Ail Gartrefi yn Sir Benfro 2020-21	Tanwariant 2018-2020 yn treiglo i 2021-22	Dyranriad 2021-22	Cyfanswm ar gael yn 2021-22
Ystagbwll a Chastellmartin	330	35	11	1	22,653.00	7500	30,153.00
Cilgeti / Begeli	1101	32	3	1	20,547.00	7500	28,047.00
Burton	579	31	5	1	13,062.00	7500	20,562.00
Martletwy	286	28	10	1	15,771.00	7500	23,271.00
Angle	195	27	14	0.7	4,634.13	5250	9,884.13
Crymych	876	27	3	0.7	0	5250	5250
Breudeth	354	26	7	0.7	19,509.00	5250	24,759.00
Caeriw	681	26	4	0.7	5,700.00	5250	10,950.00
Camros	859	25	3	0.7	14,083.00	5250	19,333.00
Llangwm	399	25	6	0.7	9,422.60	5250	14,672.60
St Ishmaels	242	23	10	0.6	11,102.00	4500	15,602.00
St Florence	387	22	6	0.6	1,018.18	4500	4,500.00
Llanbedr Efelffre	524	21	4	0.6	14,402.00	4500	18,902.00
Maenclochog	353	20	6	0.5	13,062.00	3750	16,812.00
Llanfair Dinbych-y-pysgod	362	20	6	0.5	13,232.00	3750	16,982.00

## Atodiad 2

Ardal	Cyfanswm yr Anheddau yn y Gymuned 2021-22	Nifer yr Ail Gartrefi yn y Gymuned 2021-22	% yr Ail Gartrefi o Gyfanswm yr Anheddau yn y Gymuned 2021-22	Ail gartrefi yn y Gymuned fel % arwyddol o gyfanswm yr Ail Gartrefi yn Sir Benfro 2020-21	Tanwariant 2018-2020 yn treiglo i 2021-22	Dyraniad 2021-22	Cyfanswm ar gael yn 2021-22
Hundleton	374	17	5	0.5	13,062.00	3750	16,812.00
Llanhuadain	289	16	6	0.4	12,892.00	3000	15,892.00
Eglwyswrw	349	15	4	0.4	5,497.33	3000	8,497.33
Cosheston	370	14	4	0.4	13,062.00	3000	16,062.00
Cas-lai	221	14	6	0.4	7,689.78	3000	10,689.78
Rudbaxton	609	14	2	0.4	11,531.00	3000	14,531.00
Tredemi	504	14	3	0.4	8,922.00	3000	11,922.00
Treletert	591	13	2	0.4	11,871.00	3000	14,871.00
Scleddau	479	12	3	0.3	12,722.00	2250	14,972.00
Cas-wis	510	12	2	0.3	5,000.00	2250	7,250.00
Maenordeifi	260	11	4	0.3	0.00	2250	2,250.00
Boncath	349	11	3	0.3	4,742.75	2250	6,992.75
Clydau	323	11	3	0.3	2,440.75	2250	4,690.75
Cas-mael	250	11	4	0.3	12,552.00	2250	14,802.00
Mynachlogddu	238	11	5	0.3	9,596.75	2250	11,846.75



## Atodiad 2

Ardal	Cyfanswm yr Anheddau yn y Gymuned 2021-22	Nifer yr Ail Gartrefi yn y Gymuned 2021-22	% yr Ail Gartrefi o Gyfanswm yr Anheddau yn y Gymuned 2021-22	Ail gartrefi yn y Gymuned fel % arwyddol o gyfanswm yr Ail Gartrefi yn Sir Benfro 2020-21	Tanwariant 2018-2020 yn treiglo i 2021-22	Dyraniad 2021-22	Cyfanswm ar gael yn 2021-22
Johnston	946	10	1	0.3	12,041.00	2250	14,291.00
Cwm Gwaun	130	9	7	0.2	10,661.00	1500	12,161.00
Llanstadwel	414	9	2	0.2	12,552.00	1500	14,052.00
Y Mot	189	9	5	0.2	11,361.00	1500	12,861.00
Cas-blaid	293	8	3	0.2	10,000.00	1500	11,500.00
Jeffreyston	242	8	3	0.2	8,989.00	1500	10,489.00
Uzmaston, Boulston a Slebets	336	7	2	0.2	11,361.00	1500	12,861.00
Herbrandston	194	7	4	0.2	10,771.00	1500	12,271.00
Spital	211	6	3	0.2	11,361.00	1500	12,861.00
Tiers Cross	229	6	3	0.2	10,340.00	1500	11,840.00
Hook	401	6	2	0.2	11,021.00	1500	12,521.00
Freystrop	254	6	2	0.2	10,851.00	1500	12,351.00
Clunderwen	413	6	1	0.2	11,021.00	1500	12,521.00
Llanddewi Efelffre	180	6	3	0.2	7,555.75	1500	9,055.75
Ynys Bŷr	23	6	26	0.2	11,191.00	1500	12,691.00

## Atodiad 2

Ardal	Cyfanswm yr Anheddau yn y Gymuned 2021-22	Nifer yr Ail Gartrefi yn y Gymuned 2021-22	% yr Ail Gartrefi o Gyfanswm yr Anheddau yn y Gymuned 2021-22	Ail gartrefi yn y Gymuned fel % arwyddol o gyfanswm yr Ail Gartrefi yn Sir Benfro 2020-21	Tanwariant 2018-2020 yn treiglo i 2021-22	Dyraniad 2021-22	Cyfanswm ar gael yn 2021-22
Gorllewin Llandysilio-yn-Nyfed	222	5	2	0.1	10,510.00	750	11,260.00
Castell Gwalchmai	134	5	4	0.1	10,721.00	750	11,471.00
Pont Fadlen	984	4	0.4	0.1	10,510.00	750	11,260.00
Rhosfarced	243	3	1	0.1	10,340.00	750	11,090.00
Treamlod	152	1	1	0.1	10,340.00	750	11,090.00
<b>Cyfansymiau</b>	<b>61,858</b>	<b>3641</b>				<b>£712,500,</b>	

## CANLLAWIAU CAFFAEL

Dengys y tabl isod grynodeb o fandiau gwerthoedd a phan fo angen eu hysbysebu

Gofyniad	Gwerth (ac eithrio TAW)	Trefn gaffael
Holl	Up to £4,999	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhaid cael a chadw o leiaf 3 dyfynbris.</li> <li>• Rhaid cael gwerth gorau am yr arian a chymryd gofal rhesymol i gael nwyddau, gwasanaethau neu waith o ansawdd priodol am bris cystadleuol.</li> <li>• Rhaid cadw cofnod o'r penderfyniadau a wnaed at ddibenion archwilio a hawlio.</li> </ul>
Holl	£5,000 - £24,999	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhaid gofyn am o leiaf 3 dyfynbris ysgrifenedig o ffynonellau cystadleuol. Y dyfyniadau rhaid seilio ar yr un fanyleb a'u cloriannu ar sail debyg am debyg.</li> <li>• Rhaid cadw cofnod dogfennol o'r dyfynbrisiau a geisiwyd, y broses gloriannu a'r penderfyniad i ddyfarnu.</li> </ul>
Holl	£25,000 - £74,999	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhaid gofyn am o leiaf 3 dyfynbris ysgrifenedig o ffynonellau cystadleuol, a'u seilio ar y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ yr un fanyleb</li> <li>○ yr un meini prawf arfarnu a'u cloriannu ar sail debyg am debyg; yr arfer gorau yw sefydlu panel arfarnu</li> <li>○ yr un dyddiad cau</li> </ul> </li> <li>• Rhaid cadw cofnod dogfennol o'r dyfynbrisiau a geisiwyd, y broses gloriannu a'r penderfyniad i ddyfarnu.</li> </ul>
Nwyddau a Gwasanaethau (Nwyddau yw eitemau materol h.y. offer, bwyd, cerbydau ac ati. Gwasanaethau yw gwaith a wneir gan bobl h.y. ymgynghori, cyfieithu ac ati.)	£75,000 - £173,934	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhaid gofyn am o leiaf 4 o dendrau cystadleuol gan dderbyn o leiaf 3 ohonynt.</li> <li>• Rhaid rhoi'r un wybodaeth i bawb sy'n cynnig: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ yr un gofynion o ran manyleb</li> <li>○ amlinelliad o'r meini prawf arfarnu ar gyfer dyfarnu'r contract</li> <li>○ yr un dyddiad cau ar gyfer derbyn cynigion, a pheidio â derbyn unrhyw gynnig wedyn</li> </ul> </li> <li>• Rhaid i'r broses gloriannu a ddilynwyd gyd-fynd â'r meini prawf arfarnu gwreiddiol a amlinellwyd gydag adroddiad cloriannu'n dangos ar ba sail y dyfarnwyd y cynnig llwyddiannus; yr arfer gorau yw sefydlu panel arfarnu i arfarnu tendrau.</li> </ul>

Gofyniad	Gwerth (ac eithrio TAW)	Trefn gaffael
Gwaith (mae Gwaith yn cynnwys tirlunio, adeiladu, gwaith ar adeiladau ac ati.)	£75,000 – £4,348,350	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhaid gofyn am o leiaf 4 o dendrau cystadleuol gan dderbyn o leiaf 3 ohonynt.</li> <li>• Rhaid rhoi'r un wybodaeth i bawb sy'n cynnig: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ yr un gofynion o ran manyleb</li> <li>○ amlinelliad o'r meini prawf arfarnu ar gyfer dyfarnu'r contract</li> <li>○ yr un dyddiad cau ar gyfer derbyn cynigion, a pheidio â derbyn unrhyw gynnig wedyn</li> </ul> </li> <li>• Rhaid i'r broses gloriannu a ddilynwch gyd-fynd â'r meini prawf arfarnu gwreiddiol a amlinellwyd gydag adroddiad cloriannu'n dangos ar ba sail y dyfarnwyd y cynnig llwyddiannus.</li> <li>• Yr arfer gorau yw sefydlu panel arfarnu i arfarnu tendrau.</li> </ul>
Nwyddau a Gwasanaethau	Uwchlaw £173,934	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Os yw contract am Nwyddau neu Wasanaethau'n debygol o fynd dros £173,934 rhaid i'r ceisydd hysbysu CSP i gadarnhau a fydd y contract yn amodol ar Gyfarwyddebau Caffael Cyhoeddus yr UE.</li> </ul>
Gwaith	Uwchlaw £4,348,350	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Os yw contract am Waith yn debygol o fynd dros £4,348,350 rhaid i'r ceisydd hysbysu CSP i gadarnhau a fydd y contract yn amodol ar Gyfarwyddebau Caffael Cyhoeddus yr UE.</li> </ul>

## Osgoi gwrthdaro buddiannau wrth gaffael

Rydym yn derbyn y gall ceiswyr neu bobl gysylltiedig â nhw (fel perthnasau, partneriaid busnes neu gyfeillion) fod eisiau tendro am gontract sy'n cael ei gynnig gan y ceisydd.

Mae hyn yn dderbyniol, ond bydd angen i geiswyr sicrhau bod y broses dendro'n cael ei dilyn mewn ffordd agored, eglur a theg, fel yr amlinellwyd uchod, nad yw'n rhoi mantais i unigolyn neu gwmni sy'n cynnig dros neb arall, sy'n deillio o'r proses. Os oes gan geisydd / datblygwr neu unrhyw un cysylltiedig â nhw, fudd mewn unrhyw gynigion a allai fod am gontract sy'n cael ei gynnig:

- Rhaid i'r cyfryw geisydd / datblygwr, unigolyn neu barti ddatgan y budd hwnnw'n ysgrifenedig.
- Ni ddylai'r cyfryw unigolyn neu barti gymryd unrhyw ran o fath yn y byd yn y trefnau cloriannu cynigion.

Cysylltwch â'r Tîm Adfywio ar 01437 775536 neu [enhancing.pembrokeshire@pembrokeshire.gov.uk](mailto:enhancing.pembrokeshire@pembrokeshire.gov.uk) i gael rhagor o arweiniad a gwybodaeth am gaffael.

